CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

# Safonau'r Gymraeg – Gweithdrefn Gwyno

Yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, rydym yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn cydymffurfio yn llawn â safonau'r Gymraeg, ond gwyddom weithiau gall pethau fynd o chwith. Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i ddysgu pan mae rhywbeth yn mynd o'i le ac i gywiro ein camgymeriadau.

Gallwch gwyno os ydych yn teimlo ein bod wedi methu cydymffurfio â'r safonau a osodwyd arnom; rydym yn croesawu eich sylwadau a'ch adborth ac yn eu hystyried yn gyfle i wella.

## Sut i gwyno

Byddwn yn ymdrin â phob cwyn iaith yn unol â phroses gwyno a sylwadau'r Canolfan Mileniwm Cymru. Gallwch anfon cwyn atom trwy'r dulliau canlynol:

- Llythyr – Canolfan Gyswllt, Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd, CF10 5AL
- Ffôn – 029 2063 6464
- E-bost – adborth@wmc.org.uk

Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl fel y gallwn ymdrin â'r gwyn yn effeithiol. Gall hyn gynnwys, os yw'n berthnasol, dyddiad, lleoliad a lluniau ac os yn bosibl, y safon neu safonau perthnasol.

Bydd y Ganolfan Gyswllt yn cofnodi ac yn ymateb i gwynion am y safonau. Byddwch chi'n cael cydnabyddiaeth ac ymateb llawn o fewn 10 diwrnod gwaith.

Rydyn ni'n annog pobl i gysylltu â ni yn uniongyrchol yn gyntaf, ond mae hefyd yn bosibl anfon cwyn am ein cydymffurfiaeth â'r safonau yn uniongyrchol â Chomisiynydd y Gymraeg.

## Ymchwilio

Byddwn yn ymchwilio i bob cwyn gan ddilyn ein gweithdrefnau corfforaethol gydag aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn arwain. Bydd yr ymchwiliad yn ceisio darganfod a ydym wedi:

- gwneud camgymeriad
- methu â dilyn trefn neu broses
- methu â rhoi proses ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau

## Datrys a dysgu gwersi

Unwaith i ni gael cwyn ac ymchwilio, byddwn yn rhannu ein canfyddiadau â chi ac yn esbonio'r camau priodol rydym wedi eu cymryd i ddatrys y sefyllfa. Gallai hyn gynnwys datblygu neu addasu gweithdrefn neu gynnig hyfforddiant i'n staff. Ein nod yw sicrhau na fydd yr un camgymeriad yn cael ei wneud eto.

This procedure is also available in English

## Monitro

Byddwn yn monitro cwynion iaith ac yn rhoi adborth yn rheolaidd arnynt i'n rheolwyr a'n staff. Byddwn yn rhoi gwybod i Gomisiynydd y Gymraeg am unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn flynyddol drwy ein Hadroddiad Blynyddol.

## Hyfforddiant

Byddwn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn hon a sut rydym yn ymdrin â chwynion fel rhan o'n hyfforddiant cynefino, sy'n cadarnhau ein cyfrifoldebau mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Mae ein canllaw staff yn cynnwys gwybodaeth bellach am ymdrin â chwynion. Bydd staff y Ganolfan Gyswllt hefyd yn cael cymorth ychwanegol fel rhan o'r hyfforddiant ehangach a ddarperir ar ymdrin â chwynion.

Gall Canolfan Mileniwm Cymru hefyd gysylltu â'n cynghorwyr ar y Gymraeg i gefnogi staff i ymdrin â chwynion ac, os oes angen, gynghori ar gamau unioni i'w cymryd.